

Canllaw ar gyfer ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf

A Guide to Joining the First 1000 Days Collaborative

Chwefror 2018
February 2018

Cefndir

Mae Cydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf yn cynrychioli un o'r tri maes blaenoriaeth o fewn cynghrair strategol Cymru Well Wales, sydd â'r nod o ddefnyddio dull 'system gyfan' o sicrhau gwell canlyniadau iechyd a llesiant i boblogaeth Cymru.

Mae gwreiddiau llawer o anghydraddoldebau iechyd yn gysylltiedig â phlentyndod cynnar a chyn genedigaeth. Mae'r 1000 o ddiwrnodau cyntaf, o feichiogrwydd hyd at ail ben-blwydd plentyn, yn cynrychioli cyfnod pwysig pan gaiff cysylltiadau eu meithrin gyda gofawyr a phan fydd plant yn dechrau archwilio'r byd o'u hamgylch a chyfathrebu â'r byd hwnnw.

Dyma pryd y mae'r ymennydd yn tyfu ac yn datblygu fwyaf a phryd y caiff y sylfeini eu gosod ar gyfer iechyd a lles ein dyfodol. Ceir effeithiau hirdymor a chadarnhaol o raglenni blynyddoedd cynnar.

Background

The First 1000 Days Collaborative represents one of the priority areas within the strategic alliance of Cymru Well Wales, which aims to take a 'whole system' approach to securing better health and wellbeing outcomes for the Welsh population.

The origins of many inequalities in health lie in early childhood and before birth. The first 1000 days, during pregnancy to a child's second birthday, represent a critical time when attachments are formed with caregivers and children begin to explore and communicate with the world around them.

It is when we see the most rapid phase of brain growth and development and where the foundations are laid down for our future health and wellbeing. There are long lasting and positive effects from early years programmes.

Mae Cydweithrediaeth
y 1000 Diwrnod Cyntaf
yn gweithio tuag at
gyflawni tri chanlyniad:


The First 1000 Days
Collaborative is
working to achieve
three outcomes:



Y canlyniad gorau o bob beichiogrwydd ar gyfer y fam a'r plentyn
Optimal outcome from every pregnancy for mother and child



Bod plant yn cyflawni eu cerrig milltir datblygiadol erbyn
iddynt gyrraedd 2 oed
Children achieve their developmental milestones at age 2



Nad yw plant yn cael amryw o brofiadau niweidiol yn ystod
plentyndod yn y 1000 o ddiwrnodau cyntaf
**Children are not exposed to multiple adverse childhood
experiences in the first 1000 days**

Beth yw'r canllaw hwn?

Datblygwyd y canllaw hwn i roi cymorth i ardaloedd lleol ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf.

Cafodd ei ddatblygu fel cyfres o sleidiau er mwyn caniatáu i bartneriaid o fewn system 1000 o ddiwrnodau cyntaf leol ddefnyddio'r canllaw wrth gyflwyno'r achos dros newid y system yn lleol a datblygu eu cynlluniau i ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf.

Cafodd y cynnwys ei lywio gan brofiadau aelodau presennol y Gydweithrediaeth, gan gynnwys Wrecsam, Torfaen a Siroedd Conwy a Dinbych.

Hoffem ddiolch yn arbennig i'r partneriaethau sy'n cynrychioli Wrecsam a Thorfaen, sydd wedi gweithio gyda ni ers y sefydlwyd y rhaglen ac sydd wedi bod yn allweddol wrth helpu i ddatblygu'r dull cydweithredol.

What is this guide?

This guide has been developed to support local areas through the process of joining the First 1000 Days Collaborative.

It has been developed as a series of slides to allow partners from within a local first 1000 days system to draw from the guide when presenting the case for local system change and developing their plans to join the First 1000 Days Collaborative.

The content has been informed by the experiences of existing Collaborative members including Wrexham, Torfaen and Conwy and Denbighshire.

We would particularly like to thank the partnerships representing Wrexham and Torfaen who have worked with us since the establishment of the programme and have been instrumental in helping to develop our Collaborative approach.

Mae'r sleidiau a ganlyn yn:

Crynhoi'r achos dros roi blaenoriaeth i weithredu yn ystod y 1000 o ddiwrnodau cyntaf

Esbonio beth yw Cydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf

Disgrifio manteision ymuno â Chydwithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf

Disgrifio'r camau allweddol sy'n gysylltiedig wrth ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf

The following slides:

Summarise the case for prioritising action in the first 1000 days

Explain what the First 1000 Days Collaborative is

Describe the benefits of joining the First 1000 Days Collaborative

Describe the key steps involved in joining the First 1000 Days Collaborative

Ar gyfer pwy mae hwn?

Bwriad y canllaw hwn yn bennaf yw bod yn adnodd ymarferol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi nodi bod y Blynyddoedd Cynnar a/neu'r 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu a bod ganddynt ddiddordeb mewn ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf.

Y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hyn yw ein prif gynulleidfa am y rhesymau a ganlyn:

Maent yn dwyn ynghyd yr arweiniad strategol mewn ardal, ynghylch diben cyffredin, gan alluogi dull o weithio drwy systemau i wella canlyniadau

Mae dyletswydd arnynt, fel sydd wedi'i nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i osod amcanion sy'n gwneud y mwyaf o gyfraniad y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'r 7 nod llesiant

Who is it for?

This guide is primarily intended to act as a practical guide for Public Services Boards (PSBs) who have identified the Early Years and/or the First 1000 Days as a priority for action and are interested in joining the First 1000 Days Collaborative.

PSBs are our primary audience because they:

Bring together the strategic leadership in an area around a common purpose enabling a systems approach to improving outcomes

Have a duty, as set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 to set objectives that maximise the PSBs contribution to the 7 well-being goals

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod fforymau arweinyddiaeth strategol eraill yn bodoli ac y caiff rhagor eu datblygu dros amser.

Yr allwedd i ddarparu cydweithrediaeth leol lwyddiannus a all sicrhau newid yn y system yw ymgysylltu a mewnwediad ar lefel uwch-swyddogion.

Felly os oes rheswm penodol yn eich ardal leol pam y byddai fforwm arall mewn gwell sefyllfa i arwain gwaith eich grŵp cydweithredeol leol, gallwn drafod ymarferoldeb dull arall gyda chi.

However we recognise that other strategic leadership forums exist and more will develop over time.

The key to delivering a successful local collaborative group that can bring about system change is senior level engagement and oversight.

Therefore if within your local area there is a specific reason why another forum would be better placed to lead the work of your local collaborative group we can discuss the feasibility of an alternative approach with you.

Yr achos dros roi blaenoriaeth
i weithredu yn y 1000 o
ddiwrnodau cyntaf

The case for prioritising
action in the first 1000 days

Pam mae'r 1000 o ddiwrnodau cyntaf mor bwysig

Yn ystod y 1000 o ddiwrnodau cyntaf rydym yn gweld y twf a'r datblygiad cyflymaf o ran yr ymennydd.

Mae datblygiad pensaerniaeth ein hymennydd yn rhoi'r sylfaen ar gyfer ein hiechyd a'n llesiant yn y dyfodol a chaiff hyn ei effeithio gan ein profiadau cynharaf.

Caiff dylanwadau cadarnhaol ac amddiffynnol yn ystod y cyfnod hwn effaith barhaus ar ganlyniadau iechyd a llesiant am oes.


Why the first 1000 days are so important

We see the most rapid phase of brain growth and development in the first 1000 days.


The development of our brain architecture provides the foundation for our future health and wellbeing and is affected by our earliest experiences.

Positive and protective influences in this time have a lasting impact on health and wellbeing outcomes across the lifecycle.

Effaith hyd oes Lifelong impact



Amgylchedd teuluol,
cymunedol a chymdeithasol
sy'n ddiogel a gofalgwr
**Safe & caring family,
community & social
environment**




Tlodi ac amddifadedd
Poverty & deprivation



Iechyd da cyn, yn ystod ac ar
ôl mamolaeth
**Good maternal health before,
during & after pregnancy**

Dylanwadu Influence



Gwneud gwahaniaeth Making a difference



Dangoswyd bod rhoi blaenoriaeth i weithredu ar sail tystiolaeth yn ystod y 1000 o ddiwrnodau cyntaf yn atal problemau rhag codi a'i fod yn gost effeithiol.

Prioritising evidence based action in the first 1000 days has been shown to prevent problems arising and is cost effective.



Gellid gwneud mwy yng Nghymru i wella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau mewn beichiogrwydd ac yn ystod y blynyddoedd cynnar.

More could be done in Wales to improve outcomes and reduce inequalities in pregnancy and the early years.

Gwneud gwahaniaeth Making a difference



Mae darparu gwasanaeth sydd ar gael i bawb y gellir ei ategu gan gymorth mwy dwys pan fydd ei angen ar deulu yn allweddol i leihau anghydraddoldebau iechyd.

The provision of a universal service offer that can be supplemented by more intensive support when a family needs it is key to reducing health inequalities.



Drwy weithio mewn partneriaeth, mae gennym gyfle i ailalinio'r system 1000 o ddiwrnodau cyntaf yng Nghymru. Gellir datblygu gwasanaethau a chymorth sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion teuluoedd, gan ganolbwyntio mwy ar atal ac ymyrraeth gynnar.

By working in partnership we have an opportunity to realign the first 1000 days system in Wales. Building services and support that is better aligned to the needs of families with a greater focus on prevention and earlier intervention.

Beth yw Cydweithrediaeth y
1000 Diwrnod Cyntaf?

What is the First 1000 Days
Collaborative?



Mudiad o sefydliadau brwdfrydig sydd wedi ymrwymo i feddwl a gweithio'n wahanol i greu Cymru yr ydym i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol, yw Cymru Well Wales.

Drwy ddefnyddio gweithgareddau ac adnoddau, mae partneriaid Cymru Well Wales yn rhoi blaenoriaeth i weithredu ar faterion sy'n cyfrannu fwyaf at iechyd gwael yng Nghymru.

Mae'r 1000 o ddiwrnodau cyntaf yn flaenoriaeth i Cymru Well Wales gan y bydd rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yn helpu i leihau anghydraddoldebau a gwella iechyd a llesiant am oes.

Cymru Well Wales is a movement of motivated organisations that are committed to thinking and working differently to create a Wales that we all want to live in, now and in the future.

By harnessing activity and resources, partners within Cymru Well Wales are prioritising action on the issues which contribute most towards poor health in Wales.

The first 1000 days is a Cymru Well Wales priority because giving every child the best start in life will help to reduce inequalities and improve health and wellbeing across the lifecycle.

Mae Tîm Rhaglen canolog yn gyfrifol am gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Cydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf ac amcanion ehangach y rhaglen.

A central Programme Team has responsibility for supporting the effective delivery of the First 1000 Days Collaborative and wider programme objectives.

Mae'r tîm hwn yn helpu i sbarduno camau gweithredu lleol a chreu rhwydwaith o ardaloedd sydd wedi ymrwmo i wella canlyniadau yn ystod y 1000 o ddiwrnodau cyntaf o dan ymbarel Cydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf.

Rydym yn gweithio i hyrwyddo dull yn seiliedig ar gydweithredu gan mai'r rhai sy'n deall anghenion ac asedau eu cymunedau lleol orau yw'r bobl orau i gynllunio a chyflawni newid yn y system.

This team is helping to initiate local action and build a network of areas who are committed to improving outcomes in the first 1000 days under the umbrella of the First 1000 Days Collaborative.

We are working to promote a collaborative based approach because system change will be most effectively designed and delivered by those who best understand the needs and assets of their local communities.

Mae'r Gydweithrediaeth yn adeiladu ar y pum egwyddor sy'n llywio gwaith Cymru Well Wales
The Collaborative's approach builds on the five principles which inform Cymru Well Wales' work



Gweithredu heddiw i atal iechyd
gwael yfory
Acting today to prevent poor
health tomorrow



Gwella llesiant drwy harneisio
gweithgarwch ac adnoddau i ehangu
ein heffaith ar y cyd
Improving wellbeing by harnessing
activity & resources to amplify our
collective impact



Meddwl a gweithio yn greadigol i fynd i'r
afael ag anhydraddoldebau iechyd
Thinking and working creatively to
tackle health inequalities



Grymuso ein cymunedau ym
mhopeth a wnawn
Empowering our communities
in all that we do



Dysgu gan eraill i gynllunio camau
gweithredu arloesol ar gyfer y dyfodol
Learning from others to design
innovative action for the future

Mae'r Gydweithrediaeth yn dilyn y pum ffordd o weithio a gaiff eu hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
The Collaborative's approach aligns with the five ways of working outlined by the Wellbeing of Future Generations Act




Integreiddio
Integration



Atal
Prevention



Cydweithio
Collaboration



Hirdymor
Long Term



Cynnwys
Involvement

Pam ymuno â Chydweithrediaeth
y 1000 Diwrnod Cyntaf?

Why Join the First 1000 Days
Collaborative?

Mae ardaloedd lleol sy'n ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf yn ymrwmo i:
Local areas that join the First 1000 Days Collaborative commit to:



Greu cynghrair o bartneriaid
amlasiantaeth sy'n cynrychioli'r
system 1000 o ddiwrnodau cyntaf
yn eich ardal chi
**Build a local coalition of multiagency
partners who represent the first
1000 days system in your area**



Nodi, profi a gwerthuso newidiadau i
wella ansawdd ar sail gwasanaeth a
newidiadau i'r system
**Identify, test and evaluate service
based quality improvement and
system changes**



Meithrin cyd-ddealltwriaeth o'r
system 1000 o ddiwrnodau
cyntaf bresennol
**Build a joint understanding of the
current first 1000 days system**



Rhannu'r hyn rydych wedi'i
ddysgu â'r tîm canolog ac aelodau
eraill o'r Gydweithrediaeth
**Share your learning with the
central team and other members
of the Collaborative**

Mae ymuno â'r Gydweithrediaeth yn cynnwys y cyfleoedd a'r manteision a ganlyn:

Cymorth i hyrwyddo pwysigrwydd y 1000 o ddiwrnodau cyntaf â phartneriaid allweddol a dylanwadwyr lleol

Cymorth i gychwyn arni, gan gynnwys cynnal Digwyddiad Ymgysylltu â'r System ar y cyd, a chanllawiau ar gyfer sefydlu Grŵp Cydweithredol Lleol

Mynediad i Rwydwaith Cydweithrediaeth cenedlaethol i rannu a nodi cyd-flaenoriaethau ar gyfer dylanwadu ar bolisi ac ymarfer

Cyllid grant bach er mwyn helpu i gynnal profion ar weithgareddau gwella lleol

Joining the Collaborative includes the following opportunities and benefits:

Assistance with promoting the importance of the first 1000 days with key partners and local influencers

Support with getting started, including jointly hosting a System Engagement Event, and guidance for establishing a Local Collaborative Group

Access to a national Collaborative Network to share learning and identify collective priorities for influencing policy and practice

Access to small grant funding to help enable tests of local improvement activity

Cyfrannu at ddatblygu a phrofi gwybodaeth gyhoeddus a gaiff ei chynhyrchu'n genedlaethol

Blaenoriaeth o ran cael lle mewn digwyddiadau dysgu a hyfforddiant y 1000 Diwrnod Cyntaf

Canllawiau a chymorth ar gyfer gwerthuso a mesur effaith

Cyfrannu at nodi blaenoriaethau ymchwil a chymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a rhannu'r dystiolaeth o fewn y 1000 o ddiwrnodau cyntaf

Bod yn rhan o lais ar y cyd ar gyfer dylanwadu ar draws y system 1000 o ddiwrnodau cyntaf yn genedlaethol

Contribute to and influence the development and testing of nationally produced public information

Priority access to national First 1000 Days learning events and training opportunities

Guidance and support for evaluation and measuring impact

Contribute to identifying research priorities and to be actively involved in the development and dissemination of the evidence base within the first 1000 days

Be part of a collective voice for influencing across the first 1000 days system nationally

Camau allweddol o ran
ymuno â Chydweithrediaeth
y 1000 Diwrnod Cyntaf

Key steps involved in
joining the First 1000 Days
Collaborative

Dechrau Arni: Y Camau Allweddol

1

Dechreuwch sgwrs yn eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn ag ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf

Begin a conversation in your PSB about joining the First 1000 Days Collaborative

2

Cyflwynwch yr achos dros weithredu ac ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf

Make the case for action and join the First 1000 Days Collaborative

Getting Started: Key Stages

3

Cynhaliwch Ddigidwyddiad Ymgysylltu â'r System a dechrau nodi cyfleoedd i newid y system

Hold a local System Engagement Event and begin to identifying opportunities for system change

4

Ffurfiwch Grŵp Cydweithrediaeth Lleol y 1000 Diwrnod Cyntaf

Form your Local First 1000 Days Collaborative Group

Cam Un

Dechreuwch sgwrs yn eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn ag ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dwyn ynghyd yr arweiniad strategol mewn ardal at ddiben cyffredin.

Rydym wedi canfod bod cymorth strategol uwch a ddaw yn sgil ymgysylltiad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn hanfodol i lwyddiant ardaloedd cydweithredol lleol.

Mae llawer o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi'r Blynyddoedd Cynnar neu'r 1000 Diwrnod Cyntaf yn benodol fel blaenoriaeth yn eu hamcanion llesiant. Gall y Gydweithrediaeth gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a chyflawni'r disgwyliadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Cyfodol.

Stage One

Begin a conversation in your PSB about joining the First 1000 Days Collaborative

Public Services Boards bring together the strategic leadership in an area around a common purpose.

We have found that the senior strategic support that comes with PSB engagement is instrumental to the success of local collaborative areas.

Many PSBs have identified the Early Years or the First 1000 Days specifically as priorities in their well-being objectives. The Collaborative can support PSBs in delivering on these priorities and fulfil the expectations set out in the Wellbeing of Future Generations Act.

Cam Dau

Cyflwynwch yr achos dros weithredu ac ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf

Mae cefnogi holl aelodau eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall pwysigrwydd gweithredu yn ystod y 1000 o ddiwrnodau cyntaf yn allweddol er mwyn ennyn cefnogaeth barhaus i waith eich Grŵp Cydweithrediaeth Lleol, ac ymrwmo i hynny.

Stage Two

Make the case for action and join the First 1000 Days Collaborative

Supporting all PSB members to understand and commit to the importance of action in the first 1000 days is key to building ongoing support for the work of your local collaborative group.

Cam Dau

Wrth gyflwyno'r achos dros weithredu i'ch Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym wedi canfod ei bod yn ddefnyddiol gallu cyflwyno:

- Gwybodaeth glir ynghylch pam mae gweithredu i wella canlyniadau yn ystod y 1000 o ddiwrnodau cyntaf mor bwysig
- Beth sy'n hysbys am ganlyniadau yn yr ardal leol ar hyn o bryd
- Sut y gall ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf helpu i sicrhau gwell canlyniadau yn eich ardal leol
- Trosolwg o'r hyn y mae bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn ymrwmo iddo wrth ymuno â'r Gydweithrediaeth

Stage Two

When making the case for action to your PSB we have found it is helpful to present:

- A clear narrative around why action to improve outcomes in the first 1000 days is so important
- What is known about outcomes currently in the local area
- How joining the First 1000 Days Collaborative can help to achieve improved outcomes in your local area
- An overview of what a PSB is committing to do when it joins the Collaborative

Cam Dau

Gall y Tîm Rhaglen canolog eich cynorthwyo i gyflwyno eich achos dros weithredu.

Y nod o wneud yr achos dros weithredu yw sicrhau cytundeb gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf. Caiff hyn ei ffurfioli drwy gytuno i ymrwymo â Chytundeb Partneriaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf.

Stage Two

The central Programme Team can support you with making the case for action.

The aim of making the case for action is to secure agreement from the PSB to join the First 1000 Days Collaborative. This is formalised by signing up to the F1000D Partnership Agreement.

Cam Tri

Cynhaliwch Ddigwyddiad Ymgysylltu â'r System a dechrau nodi cyfleoedd ar gyfer newid system

Ar ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymuno â'r Gydweithrediaeth, y cam nesaf yw ymgysylltu â'r system ehangach a lansio Gŵp Cydweithrediaeth Lleol.

Mae'r broses o ymgysylltu â'r system ehangach yn dechrau drwy gynnal Ddigwyddiad Ymgysylltu â'r System ar y cyd rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf. Mae'r digwyddiad hwn ym cynnwys partneriaid yn y system leol ehangach gyda'r nod o greu dealltwriaeth ehangach o'r angen i wneud rhywbeth gwahanol i wella canlyniadau yn ystod y 1000 o ddiwrnodau cyntaf, a'r cyfleoedd i wneud hynny.

Stage Three

Hold a local System Engagement Event and begin to identify opportunities for system change

Once the PSB has joined the Collaborative the next step is to engage the wider system and launch your local collaborative group.

The process of wider system engagement begins with hosting a joint PSB/First 1000 Days Collaborative System Engagement Event. This event engages partners in the broader local system with the aim of building a wider understanding of the need to, and opportunities for, doing something different to improve outcomes in the first 1000 days.

Bwriad y digwyddiad yw helpu ardaloedd lleol i:



Sicrhau gwell dealltwriaeth o sut y mae system y 1000 o ddiwrnodau cyntaf yn edrych ar hyn o bryd



Nodi 'rhestr hir' gychwynnol o flaenoriaethau gweithredu posibl

The event is designed to help local areas:



Develop a better understanding of what the local first 1000 days system looks like now



Identify an initial 'long list' of potential priorities for action

Dyma'r cam hefyd y dylai'r ardal leol geisio dechrau datblygu trefniadau adnoddau a llywodraethu ar gyfer eu hardal gydweithredol leol.

Mae hyn yn cynnwys canfod aelodaeth graidd y grŵp lleol a phennu cylch gorchwyl. Byddem yn awgrymu nodi Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y prosiect fel rhan o drefniadau llywodraethu lleol.

Yna, gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y gweithgareddau cwmpasu hyn drwy ddarparu adroddiad yn cynrychioli'r canfyddiadau o'u Digwyddiad Ymgysylltu â'r System a'r trefniadau ar gyfer darparu adnoddau a llywodraethu arfaethedig ar gyfer y Grŵp Cydweithrediaeth Lleol.

This is also the stage at which the local area should begin to develop the resourcing and governance arrangements for their local collaborative area.

This includes identifying the core membership of the local group and setting terms of reference. We would recommend identifying a Senior Responsible Officer for the project as part of local governance arrangements.

The PSB can then be updated on the outcome of this scoping activity through the provision of a report presenting the findings from their System Engagement Event and the proposed resourcing and governance arrangements for a Local Collaborative Group.

Cam Pedwar

Ffurfiwch Grŵp Cydweithrediaeth Lleol y 1000 Diwrnod Cyntaf

Nawr, rydych yn barod i gynnal eich cyfarfod cyntaf o'r Grŵp Cydweithrediaeth Lleol. Mae'r Tîm Rhaglen canolog ar gael i helpu i'ch arwain drwy gamau cyntaf sefydlu'r grŵp.

Mae'r grŵp hwn yn gweithredu fel cynghrair o bartneriaid amlasiantaeth sy'n rhan o'r system 1000 o ddiwrnodau cyntaf yn eich ardal chi. Bydd pob ardal mewn sefyllfa ychydig yn wahanol wrth ystyried aeddfedrwydd eu system leol. Fodd bynnag, y camau cyntaf a gaiff eu cymryd gan y rhan fwyaf o ardaloedd cydweithredol yw parhau â'r gwaith a gaiff ei ddechrau yn y Digwyddiad Ymgysylltu â'r System a blaenoriaethu'r broses o sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r system 1000 o ddiwrnodau cyntaf bresennol.

Stage Four

Form your Local First 1000 Days Collaborative Group

You are now ready to hold your first meeting of the local collaborative group. The central Programme Team are available to help guide the early stages of establishing the group.

This group acts as a local coalition of multiagency partners who make up the first 1000 days system in your area. Every area will be at a slightly different place when considering the maturity of their local system. However the first step taken by most collaborative areas is to continue the work that starts in the System Engagement Event and prioritise building a joint understanding of the current first 1000 days system.

Yna, gall y grŵp ddechrau canfod, blaenoriaethu, profi a gwerthuso newidiadau gwella ansawdd yn seiliedig ar wasanaeth a newidiadau i systemau.

Mae cefnogaeth barhaus ar gael i ardaloedd lleol drwy fynediad i Rwydwaith Cydweithredol. Mae hyn yn dwyn ynghyd holl ardaloedd y Gydwethrediaeth i rannu gwersi a ddysgir a chanfod blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer dylanwadu ar bolisiau ac arferion.

The group can then begin to identify, prioritise, test and evaluate service based quality improvement and system changes.

Ongoing support is available to local areas through access to a Collaborative Network. This brings together all of our Collaborative areas to share learning and identify collective priorities for influencing policy and practice.

Rhestr Wirio Check List

Rhestr Wirio – Cam Un Check List – Stage One



Penodwch arweinydd dynodedig o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i arwain a noddi'r agenda Blynyddoedd Cynnar a'r 1000 Diwrnod Cyntaf
Secure a nominated lead within the PSB to guide and sponsor the Early Years and F1000D agenda



Cysylltwch â Thîm y Rhaglen yn ganolog i gael gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael
Contact the central Programme Team for information about the support available

Rhestr Wirio – Cam Dau Check List – Stage Two

Cyflwynwch yr achos dros weithredu yn y 1000 o ddiwrnodau cyntaf i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ddefnyddio:

Present the case for action in the first 1000 days to the PSB drawing on:



Cynnwys Asesiadau Llesiant Lleol, gwybodaeth am iechyd neu wasanaeth y boblogaeth, barn y cyhoedd ac adborth gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

The content of local Wellbeing Assessments, population health or service intelligence, views from the public, and feedback from the Wellbeing of Future Generations Commissioner



Y manteision i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ymuno â Chydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf a'r ymrwymiad sydd ei angen gan yr ardal gydweithrediaeth leol

The benefits of joining the F1000D Collaborative to the PSB and the commitments required of the local Collaborative area



Yr hyn sy'n hysbys eisoes am weithgareddau lleol fel sail ar gyfer gweithredu yn y 1000 o ddiwrnodau cyntaf, a gwybodaeth glir ynghylch pam mae gweithredu i wella canlyniadau yn y 1000 o ddiwrnodau cyntaf mor bwysig i wella canlyniadau yn eich ardal

What is currently known about existing local activity as a foundation for action in the first 1000 days, and a clear narrative about why the first 1000 days are important to improving outcomes in your area

Rhestr Wirio – Cam Dau

Check List – Stage Two



Sicrhau cytundeb y Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus i ymuno â Chydweithrediaeth y
1000 Diwrnod Cyntaf

Secure PSB agreement to join the F1000D
Collaborative



Llofnodi Cytundeb Partneriaeth y 1000
Diwrnod Cyntaf

Sign the F1000D Partnership Agreement



Canfod uwch arweinydd gweithredol i
arwain ar lunio grŵp gorchwyl a gorffen y
1000 Diwrnod Cyntaf i gynllunio a darparu
Digwyddiad Ymgysylltu â'r System aml-
asiantaethol a thraws-sector

Identify a senior operational lead to form a
local F1000D task-and-finish group to plan
and deliver a multi-agency, cross sector
System Engagement Event

Rhestr Wirio – Cam Tri

Check List – Stage Three



Cwrdd â Thîm canolog Rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf i drafod nodau'r Digwyddiad Ymgysylltu â'r System a dechrau'r broses gynllunio
Meet with the central F1000D Programme team for a discussion about the aims of the System Engagement Event and begin the planning process



Cynllunio a threfnu Digwyddiad Ymgysylltu â'r System yn lleol wrth ddefnyddio'r Pecyn Cymorth a ddarparwyd
Plan and host a local System Engagement Event using the toolkit provided



Nodi ardaloedd ar gyfer gwella ac argymhellion ar gyfer gweithredu, sy'n deillio o'r digwyddiad ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Report areas for improvement and recommendations for action arising from the event to the PSB



Ar lefel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cytuno ar yr ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer gwella a datblygu
Agree at PSB level the priority areas for improvement and development

Rhestr Wirio – Cam Pedwar

Check List – Stage Four



Sefydlu Grŵp Cydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf Lleol o dan arweiniad gweithredol uwch o fewn strwythur llywodraethu sy'n adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Establish the Local F1000D Collaborative Group under senior operational leadership within a governance structure reporting to the PSB



Cyllido'r Grŵp Cydweithrediaeth Lleol i gyflawni newidiadau i'r system
Resource the Local F1000D Collaborative Group to deliver system change

Gwybodaeth Bellach

Further Information

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y canllaw hwn, neu Gydweithrediaeth y 1000 Diwrnod Cyntaf, cysylltwch â'r tîm canolog:
1000DC@wales.nhs.uk

If you have any questions relating to this guide or the First 1000 Days Collaborative, please contact the central team:
F1000D@wales.nhs.uk